Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

**Cyfarfod BGC Ychwanegol – Trafodaeth am Uno Rhanbarthol**

**20 Tachwedd, 11am–12pm ar-lein (Teams)**

**AGENDA**

| | |
|---|---|
| **Aelodau a oedd yn Bresennol:** | |
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Cadeirydd, CAVO |
| Gavin Brown (GB) | Is-Gadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Y Cynghorydd Bryan Davies (BD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Barry Rees (BR) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Steve Thomas (ST) | Prifysgol Aberystwyth |
| George Holloway (GH) | Un Llais Cymru |
| Vanessa Cashmore (VC) | Coleg Ceredigion |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Trina Nealon (TN) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Claire Bryant (CB) | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a a Throseddu |
| **Yn bresennol hefyd:** | |
| Y Cynghorydd Alun Williams (AlW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Greg Jones (GJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Kerry Hughes (KH) | Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Linda Jones (LJ) | Cyngor Sir Gâr (RPB) |
| Liz Bowen (LB) | Gwasanaeth Prawf |
| Y Cynghorydd Matthew Vaux (MV) | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Tîm Cymorth BGC:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Tim Bray (TB) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Neil Coetzee (NC) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Teleri Elias (TE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Carol Thomas | *Cyfieithydd* |

| | |
|---|---|
| **44.1a** | **Ymddiheuriadau, Cyflwyniadau** |

Yr Uwch-arolygydd Steve Davies – Heddlu Dyfed Powys
Megan Harries – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

| | |
|---|---|
| **44.2a.** | **Cefndir a phwrpas y cyfarfod** |

Nodwyd y cefndir gan Hazel Lloyd Lubran (HLL), a nododd bod y papur dewisiadau (wedi'i atodi isod yn Atodiad 1) wedi cael ei drafod yn ystod y cyfarfod blaenorol ym mis Medi, pan gytunwyd cyfyngu'r dewisiadau i 2 neu 3a. Gofynnwyd i bartneriaid gyfleu'r dewisiadau hyn i'w sefydliadau er mwyn iddynt eu trafod, gan ddychwelyd i'r cyfarfod hwn er mwyn gwneud penderfyniad.

Esboniodd HLL y gofynnir i bob partner roi eu hadborth am y dewisiadau a gweithio tuag at gytuno ar benderfyniad.

**Dewis 1** – Dim Newid

**Dewis 2** – Y Tri BGC i Uno

**Dewis 3a** – Y Tri BGC yn ffurfiol (cadw BGCau lleol)

**Dewis 3b** _ Y Tri BGC i Gydweithio (cadw BGCau lleol) + Bwrdd Strategol ychwanegol

**Dewis 4** – Dim ond Dau BGC yn Dod Ynghyd ac Un BGC yn Penderfynu peidio Ymuno

| | |
|---|---|
| **44.3a.** | **Eglurder gan bob sefydliad sy'n bartner ynghylch y dewis y maent yn ei ffafrio ar gyfer cydweithio rhanbarthol estynedig** |

Cyn cychwyn y drafodaeth, cadarnhawyd y sawl a oedd yn gymwys i bleidleisio. Yn ôl y Cylch Gorchwyl, mae unrhyw bartner y cytunwyd eu bod yn rhan o'r bwrdd, yn gymwys i bleidleisio.

Cafwyd mewnbwn pob partner am y dewisiadau y maent yn eu ffafrio ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Isod, rhoddir crynodeb o'r prif bwyntiau:

**Bryan Davies – Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion**

- Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ar lefel uchel, mae'n bwysig ystyried hyn yn ofalus.
- Amlygodd bwysigrwydd cydweithio dan y Siarter Gwaith Teg a sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.
- Nododd bod partneriaid o faes iechyd, NRW, tân ac ati, yn cael eu hymestyn ar draws cyfarfodydd BGC lluosog.
- Pwysleisiodd yr angen am fodel gwahanol er mwyn galluogi gweithio rhanbarthol gwell, gan gynnal grwpiau gorchwyl a gorffen/is-grwpiau lleol.
- **Dewis 2** yw'r dewis a ffafrir gan ALl Ceredigion, gan gynnwys Sir Benfro yn ddelfrydol.

**Gavin Brown – Cyfoeth naturiol Cymru**

- Mae NRW yn cefnogi **Dewis 2** ond mae hefyd yn hapus i weithio gyda Cheredigion ynghyd â sir arall.

- Nododd brofiad blaenorol o uno byrddau mewn siroedd eraill, gan amlygu cydweithio rhanbarthol llwyddiannus heb golli ffocws lleol.

**Iwan Cray – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**

- Pwysleisiodd bwysigrwydd cefnogaeth gwasanaeth ar gyfer y model a ddewisir.
- Nododd y gwaith da a wneir yn lleol ar hyn o bryd ac nid yw'n gweld unrhyw reswm pam na all y cydweithio barhau.
- **Dewis 2** yw'r dewis a ffafrir, yr ail un yw Dewis 4 a'r trydydd un yw Dewis 3a.

**Steve Thomas – Prifysgol Aberystwyth**

- Roedd yn cytuno gyda'r buddion cydweithredol a amlygwyd gan bartneriaid eraill.
- Mae'r Brifysgol yn aelod o un BGC yn unig; mynegwyd pryder ynghylch symud i ffwrdd o'r ffocws lleol os bydd tair sir yn uno.
- Y dewis a ffafrir yw **Dewis 3a.**

**Claire Bryant – Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

- Mae'n cefnogi cydweithredu rhanbarthol (Dewis 2), gan nodi cwmpas ardal ehangach a chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref yn ddiweddar.
- Mae'n bwysig nodi ac ystyried y datganiad a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref yr wythnos ddiwethaf ynghylch dyfodol llywodraethu ym maes plismona a throseddu, a'r ansicrwydd y mae hyn yn ei greu mewn ardaloedd yng Nghymru lle nad oes gan y llywodraeth drosolwg o Awdurdodau Lleol.
- Y dewis a ffafrir yw **Dewis 2.**

**Steven Davies – heddlu Dyfed Powys (cafwyd ar ffurf e-bost i gyfeiriad y Bartneriaeth)**

- Y dewis a ffafrir yw **Dewis 3b** (nid yw hwn ymhlith y dewisiadau a gytunwyd yn ystod cyfarfod blaenorol BGC).

**Hazel Lloyd – CAVO (Trydydd Sector)**

- Mae'n gweithio ar draws Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, a Cheredigion; mae'n awyddus i gynnwys mwy o bartneriaid.
- Y dewis a ffafrir yw **Dewis 3a,** gyda Dewis 2 fel ail ddewis, a chwestiynwyd dewis 4.

**Liz Bowen – Gwasanaeth Prawf**

- Asiantaeth fach; mae Dewis 2 yn fwy effeithlon ar gyfer mynychu a chynrychiolaeth.
- Y dewis a ffafrir yw **Dewis 2**

**Vanessa Cashmore (Coleg Sir Gâr)**

- Roedd yn cefnogi Dewis 2 er mwyn galluogi gwaith rhanbarthol ar brosiectau mwy o faint a mentrau economaidd.
- Y dewis a ffafrir yw **Dewis 2**

**Trina Nealon (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)**
- Cadarnhaodd bod Dewis 2 yn cyd-fynd â thrafodaethau i leihau dyblygu a gwella effeithlonrwydd.
- Y dewis a ffafrir yw **Dewis 2.**

**George Holloway – Un Llais Cymru**
- Mynegodd bryderon am golli mewnbwn lleol ac amlygodd bwysigrwydd cynnwys cynghorau tref.
- Y dewis a ffafrir fyddai **Dim newid**, yna Dewis 3a.

**Uchafbwyntiau'r Drafodaeth:**
- Rhoddodd BD sicrwydd i bartneriaid y byddai ffocws lleol yn cael ei gynnal dan Ddewis 2 a phwysleisiodd bwysigrwydd llywodraethu cadarn. Awgrymodd y dylid gweithredu trefniant cylchdroi Cadeiryddion a chynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ym mhob sir.
- Pwysleisiodd HLL bwysigrwydd grwpiau gorchwyl a gorffen a pharhau darpariaeth gymunedol yng Ngheredigion.
- Amlygodd GB y cam o ddysgu gan fyrddau eraill a unwyd; ni arsylwyd colli'r elfen leol.
- Ail-bwysleisiodd ALW y sicrwydd y mae gofyn i'r ALl ei gael ar gyfer Dewis 2:
  - Cytuno ar drefniadau llywodraethu cadarn yn gynnar.
  - Cynrychiolaeth gyfartal ar draws y tair sir.
  - Cylchdroi Cadeiryddion ar draws siroedd.
  - Cytuno ar flaen-raglen waith glir yn gynnar.
  - Cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn eu tro ar draws siroedd.
- Nododd HLL bwysigrwydd ystyried craffu yn y broses.
- Nododd DD bod modd cofnodi'r sicrwydd hwn yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd.
- Nododd HLL y bydd gofyn cael trafodaeth bellach am lywodraethu, beth bynnag fo'r dewis a wneir.
- Ategodd CB yr angen am weithgarwch wedi'i gydlynu er mwyn osgoi dyblygu ym maes plismona ac mewn meysydd eraill.
- Amlygodd BD bod cydweithio rhanbarthol yn cryfhau'r ffocws ar dlodi a blaenoriaethau eraill a rennir.
- Pwysleisiodd LJ ddysgu a rhannu arfer gorau ar draws siroedd, yn enwedig gyda threfniadau cyllido newydd.

**Cynhaliwyd pleidlais gan y Bwrdd. Canlyniadau'r Bleidlais:**

- **Dewis 2:** CSC, NRW, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Prawf, Coleg Ceredigion, BIPHDd – **7 pleidlais**
- **Dewis 3a:** Un Llais Cymru, Prifysgol Aberystwyth, CAVO **– 3 pleidlais**
- **Dewis 3b:** Heddlu Dyfed Powys – **1 pleidlais**

**Casgliad:**

- **Y dewis a ffafriwyd gan y mwyafrif oedd Dewis 2**, gyda sicrwydd cadarn ynghylch llywodraethu, cynrychiolaeth, cadeiryddion yn cylchdroi, a chynnal ffocws lleol.

| | |
|---|---|
| **44.4a** | **Adborth a gafwyd gan BGCau Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin** |

- Cynhaliodd y ddau BGC drafodaethau manwl ynghylch dewisiadau cydweithio rhanbarthol.
- Mae BGC Sir Gaerfyrddin yn ffafrio Dewis 2, gydag ystyriaethau tebyg ynghylch cynnal ffocws lleol.
- Roedd BGC Sir Benfro yn llai awyddus i uno, ac mae'n well ganddynt gynnal eu strwythur BGC presennol neu ddewis 3b.

| | |
|---|---|
| **44.5a** | **Y camau nesaf** |

- Rhennir y canlyniadau gyda BGCau Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro er mwyn cael trafodaeth bellach. Y cam cyntaf yw hwn, a chan ddibynnu ar y canlyniadau, efallai y bydd gofyn cynnal cyfarfod ychwanegol.
- Nododd DD y byddai grwpiau allweddol, gan gynnwys yr is-grwpiau Tlodi a Ffoaduriaid, yn parhau, beth bynnag fo'r penderfyniad. Amlygodd yr angen i gynllunio ar gyfer yr Asesiad Llesiant Lleol flwyddyn nesaf, ac ystyried sut y mae is-grwpiau yn cyfrannu at waith y bwrdd.
- Dan Ddewis 2, awgrymodd GB y dylai adolygu'r trefniadau presennol o ran is-grwpiau ar draws yr ardal ddaearyddol er mwyn nodi unrhyw orgyffwrdd, uno posibl, neu ardaloedd lle y dylai grwpiau barhau dan y BGC neu'n annibynnol, fod yn dasg gynnar ar gyfer unrhyw BGC newydd.

**Y Camau Nesaf:** Bydd Tim Bray yn adrodd yn ôl i BGCau Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Os bydd Sir Benfro yn penderfynu peidio mabwysiadu Dewis 2, bydd y bwrdd yn ystyried a oes modd i Sir Gaerfyrddin a Cheredigion symud ymlaen gyda threfniant uno yn annibynnol.

**Cloi:** Diolchodd DD i HLL am gadeirio'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| **44.6a.** | *Dyddiad cyfarfod nesaf BGC 1 Rhagfyr 2025.* |

Atodiad 1

PSB Options Paper
FINAL DRAFT.docx